

CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 36
30/11/20

Sachareias

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref
tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansio a chael hwyl!



Paratowyd y pecyn hwn gan:

Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,
Nia Williams - Capel y Drindod Pwllheli, Jennifer Roberts - Eglwys Unedig Jerwsalem Bethesda
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Rachel Hughes,
a Gwyn Rhydderch

An English
version
is also
available

Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddsbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygyuned.org

Stori



Fersiwn Beibl.net

Pan oedd Herod yn frenin ar Jwdea, roedd dyn o'r enw Sachareias yn offeiriad. Roedd yn perthyn i deulu offeiriadol Abeia, ac roedd ei wraig Elisabeth hefyd yn un o ddisgynyddion Aaron, brawd Moses. Roedd y ddau ohonyn nhw yn bobl dda yng ngolwg Duw, ac yn gwneud yn union fel roedd e'n dweud. Ond doedd Elisabeth ddim yn gallu cael plant, ac roedd y ddau ohonyn nhw'n eithaf hen.

Un tro, pan oedd y teulu offeiriadol oedd Sachareias yn perthyn iddo yn gwasanaethu yn y deml, roedd Sachareias yno gyda nhw yn gwneud ei waith fel offeiriad. A fe oedd yr un gafodd ei ddewis, drwy daflu coelbren, i losgi aroglarth wrth fynd i mewn i'r cysegr. (Taflu coelbren oedd y ffordd draddodiadol roedd yr offeiriad yn ei defnyddio i wneud y dewis.) Pan oedd yn amser i'r aroglarth gael ei losgi, roedd yr holl bobl oedd wedi dod yno i addoli yn gweddïo y tu allan. Roedd Sachareias wrthi'n llosgi'r aroglarth, ac yn sydyn gwelodd un o anghylion yr Arglwydd o'i flaen yn sefyll ar yr ochr dde i'r allor. Roedd Sachareias wedi dychryn am ei fywyd. Ond dyma'r angel yn dweud wrtho: "Paid bod ofn, Sachareias; mae Duw wedi clywed dy weddi. Mae Elisabeth dy wraig yn mynd i gael plentyn – dy fab di! Ioan ydy'r enw rwyf i'w roi iddo, a bydd yn dy wneud di'n hapus iawn. A bydd llawer iawn o bobl eraill yn llawen hefyd am ei fod wedi'i eni. Bydd e'n was pwysig iawn i'r Arglwydd Dduw. Fydd e ddim yn yfed gwin nac unrhyw ddiod feddwol, ond bydd wedi cael ei lenwi â'r Ysbryd Glân hyd yn oed cyn iddo gael ei eni. Bydd yn troi llawer iawn o bobl Israel yn ôl at yr Arglwydd eu Duw. Gyda'r un ysbryd a nerth a oedd gan y proffwyd Elias bydd yn mynd allan i gyhoeddi fod yr Arglwydd yn dod, ac yn paratoui'r bobl ar ei gyfer. Bydd yn gwella perthynas rhieni â'u plant, ac yn peri i'r rhai sydd wedi bod yn anufudd weld mai byw yn iawn sy'n gwneud synnwyr."



"Sut alla i gredu'r fath beth?" meddai Sachareias wrth yr angel, "Wedi'r cwbl, dw i'n hen ddyn ac mae ngwraig i mewn oed hefyd." Dyma'r angel yn ateb, "Gabriel ydw i. Fi ydy'r angel sy'n sefyll o flaen Duw i'w wasanaethu. Fe sydd wedi fy anfon i siarad â ti a dweud y newyddion da yma wrthot ti. Gan dy fod ti wedi gwrthod credu beth dw i'n ddweud, byddi'n methu siarad nes bydd y plentyn wedi'i eni. Ond daw'r cwbl dw i'n ei ddweud yn wir yn amser Duw."

Tra oedd hyn i gyd yn digwydd, roedd y bobl yn disgwyl i Sachareias ddod allan o'r deml. Roedden nhw'n methu deall pam roedd e mor hir. Yna pan ddaeth allan, roedd yn methu siarad â nhw. A dyma nhw'n sylweddoli ei fod wedi gweld rhywbeth rhyfeddol yn y deml – roedd yn ceisio esbonio iddyn nhw drwy wneud arwyddion, ond yn methu siarad.

Ar ôl i'r cyfnod pan oedd Sachareias yn gwasanaethu yn y deml ddod i ben, aeth adre. Yn fuan wedyn dyma'i wraig Elisabeth yn darganfod ei bod hi'n disgwyl babi, a dyma hi'n cadw o'r golwg am bum mis. "Yr Arglwydd Dduw sydd wedi gwneud hyn i mi!" meddai. "Mae wedi bod mor garedig, ac wedi symud y cywilydd roeddwn i'n ei deimlo am fod gen i ddim plant."

Luc 1:5-25 Beibl.net

Fersiwn syml

Roedd dyn o'r enw Sachareias yn offeiriad yn ystod y cyfnod pan oedd Herod yn frenin. Roedd Sachareias a'i wraig Elisabeth yn bobl dda, Roedden nhw yn eithaf hen a doedd Elisabeth ddim yn gallu cael plant.

Un diwrnod pan oedd Sachareias yn gwneud ei waith yn y deml ymddangosodd angel o'i flaen. Roedd Sachareias wedi dychryn. Dywedodd yn angel wrtho, "Paid ag ofni Sachareias oherwydd mae Duw wedi clywed dy weddi. Mi fyddi di ac Elisabeth yn cael plentyn, rho'r enw Ioan iddo. Bydd yn tyfu yn ddyn arbennig a da ac mi fydd yn was pwysig i Dduw." Doedd Sachareias ddim yn credu'r angel.



Dywedodd yn angel wrtho, "Duw sydd wedi fy anfon i gyda'r newyddion da yma i ti, ond am nad wyt ti wedi credu fyddi di ddim yn gallu siarad nes bydd y plentyn wedi'i eni."

Pan aeth Sachareias allan o'r deml, nid oedd yn gallu siarad. Aeth Sachareias adref a chael gwybod bod Elisabeth yn disgwyl babi. Roedden nhw wedi eu bendithio ac yn hapus iawn.

Cwestiynau i'w trafod


Ar ôl darllen y stori gyda'ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:

1. Beth ydy'r syrpreis gorau wyt ti wedi ei gael?
2. Beth fuaset ti'n wneud os buasai angel yn dod i siarad gyda thi?
3. Pam wyt ti'n meddwl fod Duw wedi dewis Sachareias a'i wraig?
4. Pam wyt ti'n meddwl bod angel wedi dod i ddweud wrth Sachareias fod ei wraig am gael babi?



Sachareias yn cael ei daro'n fud


www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther



Am amser maith bu pobl yn aros am y Mab roedd Duw wedi ei addo. Anfonodd Duw ddyn o'r enw Ioan Fedyddiwr i ddweud wrth bawb fod Mab Duw yn mynd i ymddangos yn fuan.



Roedd Sachareias yn ddyn da. Roedd o wrth ei fodd yn gweddïo ac roedd yn helpu yn y deml yn Jerwsalem, ond roedd o'n drist oherwydd nad oedd ganddo blant.



Un diwrnod, tra'r oedd yn brysur yn y deml, yn sydyn, ymddangosodd yr angel Gabriel, o flaen Sachareias gyda neges gan Dduw.



"Rwy't ti a dy wraig, Elisabeth, yn mynd i gael babi bach - bachgen. Mae'n rhaid i chi ei alw fo'n Ioan," meddai'r angel. "Fedr hyn ddim bod yn wir," atebodd Sachareias mewn anghrediniaeth.



"Rydyn ni'n rhy hen i gael plant." "Wel i ddangos mai Duw sydd wedi fy anfon fyddi di ddim yn gallu siarad hyd nes bydd y babi'n cael ei enwi'n Ioan!" meddai'r angel.



Pan oedd Elisabeth wedi bod yn feichiog am chwe mis daeth Mair, ei chyfnither, i'w gweld. Pan alwodd Mair enw Elisabeth neidiodd babi Elisabeth o lawenydd yn ei bol!



Ac fel y dywedodd yr angel ni allodd Sachareias siarad hyd nes i'w fab bach gael ei eni.
"Ei enw ydy Ioan," meddai Sachareias.



Roedd babi Sachareias ac Elisabeth, Ioan Fedyddiwr, yn gefnder i Iesu ac am fod Mab Duw ar fin dod atyn nhw'n fuan dywedodd Ioan wrth bawb i wneud eu hunain yn barod.

Gweddi fer

O Dduw, rwyd Ti mor rhyfeddol!
Diolch i Ti fod gennyd ti gynlluniau arbennig.
Diolch fod gennyd Ti gynllun arbennig ar gyfer fy mywyd i.
Amen.



Sialensau

Darlun Mawr

Gwna furlun ar y llawr o'r angel yn siarad gyda Sachareias drwy ddefnyddio gwahanol ddefnyddiau.



Amseru munud

Mae un chwaraewr yn arweinydd sydd ag oriawr, cloc neu ffôn. Mae'r chwaraewyr eraill yn cau eu llygaid ac yn eistedd i lawr. Pan fydd yr arweinydd yn dweud 'ewch' rhaid i'r chwaraewyr gyfrif (yn dawel) a sefyll i fyny pan maen nhw'n meddwl bod munud wedi mynd heibio. Yr agosaf at funud yw'r enillydd.



Creu cod

Beth am fynd at i greu cod i ti a dy ffrind ei ddefnyddio i yrru negeseuon i'ch gilydd. Buaset yn gallu defnyddio rhifau ar gyfer llythrennau'r wyddor, fel hyn: a = 1, b = 2, c = 3

Bydda'n dawel!

Wyt ti'n ei chael hi'n hawdd bod yn dawel?
Pryd dwyt ti ddim yn siarad? Pryd ddylet ti fod yn dawel?

Beth am ofyn i bobl dy noddi i fod yn dawel am 3 awr ac anfon yr arian i gefnogi'r uned babanod gofal arbennig yn dy ysbyty lleol?




Llun: Sharon McCutcheon - unsplash.com

Posau

Beth wnaeth Sachareias?

Darllena pob brawddeg a dewisa'r geiriau sy'n gwneud y frawddeg yn gywir. Rho gylch am y llythyren sy'n mynd gyda'r ateb cywir. Ar ôl gorffen, ysgrifenna'r llythrennau yn y bylchau ar y gwaelod i ddarganfod beth wnaeth Sachareias.

- Enw gwraig Sachareias oedd ... Mair Y
... Elisabeth M
- Gwaith Sachareias oedd ... offeiriad O
... bugail A
- Cafodd Sachareias ei ddewis i wneud gwaith arbennig yn y ... deml L
... farchnad B
- Gwelodd Sachareias ... fflamau E
... angel I
- Roedd Sachareias ... wrth ei fodd C
... wedi dychryn D
- Cafodd Sachareias neges gan ... Dduw U
... ei wraig CH
- Roedd Sachareias ac Elisabeth yn mynd i gael ... merch F
... mab W



Pan gafodd Sachareias ei lais yn ôl roedd yn _____

Fedri di ddatrys beth ddywedodd yr angel yn y stori?



Dyma'r a _____ yn dweud wrth Sachareias:




“Paid bod o ____, Sachareias; mae Duw wedi



clywed dy w _____. Mae Elisabeth dy w _____g



yn mynd i gael p _____ – dy fab di!



Ioan ydy'r e ____ rwyf i'w roi iddo, a bydd yn dy



wneud di'n h _____ iawn. A bydd llawer iawn o



bobl eraill yn _____en hefyd am ei fod wedi'i



e ____.”

Mae rhywun wedi cymysgu llythrennau pob gair. Fedri di eu rhoi yn y drefn gywir er mwyn dod o hyd i'r adnod?

“twyr 'nit degwl, edos mid
dyb 'nys haimbos i wuDd
ie dewnu.” cuL 1:37

Enwau

Fedri di ddod o hyd i enw plentyn Sachareias yn y grid isod?

E	F	G	A	B	R	I	E	L	I	A	G	O	H	M
J	M	A	B	O	N	J	O	H	E	R	O	D	N	A
E	O	S	I	A	N	J	O	S	H	U	A	M	G	I
N	S	A	M	M	E	L	A	N	G	E	L	L	R	R
N	B	E	E	L	I	S	A	B	E	T	H	J	A	D
I	F	A	D	R	I	A	N	A	N	D	Y	A	H	A
F	R	I	C	H	I	H	L	P	E	D	R	M	A	F
E	E	L	A	L	O	R	P	E	T	E	R	E	M	Y
R	R	U	B	Y	A	A	E	R	I	N	O	S	L	D
O	W	A	I	N	N	C	J	O	N	S	S	I	D	D
P	B	A	R	R	Y	H	D	E	B	I	B	O	B	I
H	A	R	R	Y	M	E	T	W	M	O	S	I	A	N
G	W	I	L	Y	M	L	N	I	A	N	A	L	U	N
A	C	B	A	R	N	A	B	A	S	G	A	R	Y	G
G	U	T	O	C	H	L	O	E	S	I	A	N	C	R

Gweddi Greadigol


Potyn gweddïau

Bydd angen:

- Jar lân
- Darnau o ruban, gwllân neu bapur lliwgar
- Ffyn lolipop pren
- Pin ffelt

Beth i'w wneud:

- Gorchuddia'r jar gyda darnau o ruban neu bapur lliwgar.
- Ysgrifenna bethau gwahanol i weddïo amdany'n nhw ar y ffyn lolipop fel rhain.
- Beth am weddïo dros fabi bach rwy't ti'n ei adnabod?
- Dewisa un ffon lolipop a gweddïa am beth sydd ar y ffon.
- Gofynna i aelodau o dy deulu ymuno gyda thi.



Y Synhwyrau

Siaradodd yr angel gyda Sachareias. Roedd Duw wedi clywed ei weddi. Clywodd a gwelodd Duw Sachareias ond wnaeth Sachareias ddim credu geiriau'r angel. Ni allai Sachareias siarad hyd nes i'r hyn ddywedodd yr angel ddod yn wir ac i'r babi gael ei eni.



Wyt ti wedi **gwyllo** ac wedi **gwrando** ar yr hyn mae Duw yn ceisio ei ddweud wrthyt ti heddiw?



Eistedda'n dawel am funud a gwranda. Beth fedri di ei glywed? Adar yn canu? Plant yn chwarae? Y teledu?

Beth mae Duw'n ei ddweud wrthyt ti y funud hon?



Fideo o'r stori
<https://youtu.be/oonVMcpVX0Q>

Fideo o gân yr wythnos
https://youtu.be/fm_ip_rWSYk



Cartŵn o'r stori (Saesneg)
<https://www.youtube.com/watch?v=hJXrSRxSX-Y>

Dolenni



D G P H R N W A B O C E A H R N P W G T D S L F O

F
L
S
P
B
T
H
O
R
N
W
A
E

Chwilair

R
N
W
A
E
C
D
F
L
S
P
B
T

I	L	O	DD	A	E	D	W	J	D	W	E
O	D	T	N	A	L	P	G	FF	A	U	Y
A	U	I	M	R	I	D	W	E	U	D	I
N	D	E	W	I	S	H	R	S	A	DD	CH
W	D	R	O	LL	A	E	A	NG	E	L	L
C	E	A	Y	A	B	I	I	W	S	M	U
N	W	A	I	G	E	L	G	J	N	E	H
F	Y	P	E	R	TH	Y	N	W	H	T	D
O	L	D	A	N	I	B	A	B	A	LL	I
A	C	CH	N	DD	W	E	CH	Y	P	I	O
P	A	I	D	E	C	A	FF	D	U	N	TH
S	R	D	Y	CH	R	Y	N	O	S	A	R

ADDOLI
ALLOR
ANGEL
BABI
CLYWED
DEWIS
DWEUD
DUW
DYCHRYN
ELISABETH
ENW
GWAITH
GWEDDI

GWRAIG
HAPUS
HEN
IOAN
JWDEA
OFN
OFFEIRIAD
PAID
PERTHYN
PLANT
SACHAREIAS
TEML

C R N W A B O C E A H R N P W G T D S L F W A B O H

Cacennau Angylion!

Cynhwysion:

- 125g/4owns o fenyn
- 125g/4 owns o siwgr caster
- 2 wy wedi eu curo
- 125g/4 owns o flawd codi
- Rhinflas fanila

Dull:

- Gwna'n siwr fod y cynhwysion i gyd wedi cyrraedd tymheredd yr ystafell.
- Cura'r siwgr a'r menyn gyda'i gilydd hyd nes mae'r gymysgedd yn wyn, yn ysgafn ac yn llyfn – heb fod yn rutiog .
- Rhidylla'r cynhwysion sych a'u cymysgu â'i gilydd.
- Cura'r wyau a'u hychwanaegu bob yn dipyn ac ychwanega ychydig o flawd os yw'r gymysgedd yn edrych fel petae'n mynd i geulo.
- Ychwanega ychydig o rinflas fanila.
- Llwyda ychydig o'r gymysgedd i'r cesys papur ar gyfer cacennau bach.
- Poba'r cacennau bach yn y popty am 15 – 20 munud. Tymheredd y popty 375 gradd F neu 190 gradd C neu Nwy Marc 5
- Rhaid gadel i'r cacennau bach oeri wedi iddyn nhw ddod allan o'r popty.
- Torra dop y gacen fach, y siâp cylch, a'i dorri'n hanner er mwyn gwneud adenydd.
- Paratua eisin menyn a'i roi ar dop y gacen fach yna gosoda'r 'adenydd' ar ogwydd yn yr eisin ac addurna â pheli bach siwgr, arian.

Rysâit



Dyfalur gair

Bydd angen:


1. Pencil a phapur.
2. Geiriau'r adnod ar bapurau unigol – o'r tabl
3. 3 neu fwy o chwaraewyr

Sut i chwarae:

- Mae un chwaraewr yn dewis darn o'r adnod (o'r tabl).
- Mae'n rhoi llinell ar gyfer pob llythyren ar bapur glân. Fel hyn ar gyfer y gair cyntaf, "Rwy't"
- Mae'r chwaraewyr eraill yn cymryd tro i gynnig llythyren.
- Os ydyn nhw'n dyfalu llythyren yn gywir, mae'r chwaraewr gyda'r papur yn rhoi'r llythyren yn y lle cywir. Fel hyn: _ _ y _
- Os ydyn nhw'n dyfalu yn anghywir, yna mae'r chwaraewr â'r papur yn dechrau tynnu llun un darn o berson yn gweddïo fesul cam. (Un cam am bob llythyren anghywir.)
- Mae hyn yn cael ei ailadrodd gyda'r chwaraewr nesaf.
- Mae'r dyfalwyr yn ceisio dyfalu beth ydy'r gair neu'r geiriau cyn i'r person â'r papur orffen llun y person yn gweddïo.
- Mae'r rownd yn gorffen pan mae'r gair neu'r geiriau wedi eu dyfalu, neu pan mae llun y person yn gweddïo wedi ei orffen.
- Yna mae'r rownd nesaf yn cychwyn gyda'r gair neu'r geiriau nesaf o'r tabl.



Rwy't	ti'n gweld,	does
dim byd	sy'n amhosib	
i Dduw	ei wneud	



"Charades"

Byddi angen:

- Y stori ar ddechrau'r pecyn i ddewis geiriau e.e. angel, teml, babi, ofn
- Tri neu fwy o chwaraewyr

Sut i chwarae:

Mae'r chwaraewr cyntaf yn dewis gair o'r stori yna'n ei feimio i'r chwaraewyr eraill geisio dyfalu beth ydy'r gair. Y cyntaf i ddyfalu fydd yn cael tro i feimio nesaf.

Canu

Wnaeth mab Sachareias gael ei ddefnyddio gan Dduw
i ddweud wrth ei bobl y ffordd sy'n iawn i fyw
a pharatoi'r ffordd ar gyfer 'r un ddaeth i lawr o'r nefoedd.
O Iesu, croesawn di yn awr.

O Iesu, Emaniwel
Duw gyda ni
lôr, yn fy nghalon
Fe'th addolaf di.

'N aros heb obaith – ar gael baban oedd ei fryd
Roedd o wir eisiau plentyn i ddod a llenwi ei fyd.
Gweithiai fel offeiriad yn y Deml ac un dydd
daeth negesydd o'r nefoedd,
angel ddaeth i lawr i'w fyd.

"Mae dy weddïau 'di cael eu clywed gan Dduw.
Mewn ychydig fisoedd fydd dy fab di yn fyw."
"Dydwi ddim yn deall – dan ni'n dau mor hen.
Sut all hyn ddigwydd? Ddaw yr aros i ben?"

'N aros yn ddisgwylgar - i wyl Nadolig ddod.
Mae'n gyfle i dathlu a chanu ein clod
i'r un ga'th ei eni ym Methlehem dref –
ein ffrind a'n hachubwr a ddaeth i lawr o'r nef.

"Achos na wnest ti gredu mi fyddi di'n fud
tan nes daw dy fab loan i gorwedd yn ei grud."
Aeth Sachareias adre a methu siarad am hir.
Chafodd 'Lisbeth fabi - 'r addewid ddeath yn wir.



Hawlfraint 2020 Andy Hughes

Gwylwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/fm_ip_rWSYk

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes - ahughes@saintygymuned.org